Arian i Fadagascar

Adroddiad Blynyddol 34

2019 – 2020

“Galluogi pobl Madagascar i leihau tlodi a gwarchod yr amgylchedd trwy fentrau cynaliadwy sy’n cael eu harwain gan gymunedau.”

Rhagair

Dyma'r flwyddyn pan drowyd popeth ar ei ben gan Covid-19! Wynebodd rhoddwyr, staff, partneriaid Malagasaidd a chymunedau buddolwyr heriau anferth. Ysgwydd wrth ysgwydd gyda'n partneriaid a'n buddolwyr, llwyddodd teulu AiF i gynnig mwy o gefnogaeth nag erioed ym Madagascar.

Gyda chefnogaeth gan AiF y DU gweithiodd partneriaid yn gyflym i addasu'u cynlluniau gwaith. Pan oedd hynny'n bosib, parhaodd gweithgareddau arferol y rhaglenni gydag addasiadau i warchod rhag Covid-19. Pan nad oedd yn bosib, gohiriwyd gweithgareddau a lansiwyd prosiectau Covid penodol i helpu gwarchod cynifer â phosib o 16,000 buddolwr AiF rhag effeithiau gwaetha'r pandemig.

YMATEB I ARGYFYNGAU A CHREU GWYTNWCH TYMOR HIR

Ers 35 mlynedd, mae AiF wedi cefnogi unigolion a chymunedau i gynyddu eu gwytnwch tymor hir. Eleni, roedd fel petai Madagascar dan warchae gan Covid, newyn ac argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth. Diolch i'ch rhoddion hael, mae AiF wedi cyllido 12 prosiect ymateb brys eleni. Parhaodd ein hymrwymiad i waith datblygu mwy hirdymor hefyd.

Ar anterth y cyfyngiadau Covid, mewn canolfannau plant, ysgolion a chymunedau ffermio, gwelsom fudd ymarferol ein buddsoddi tymor hir mewn creu cymunedau gwydn. Oherwydd buddsoddiadau AiF mewn cyfleusterau WASH, llwyddodd 16,000 o bobl i leihau eu peryg o ddal Covid trwy gael defnydd o ddŵr glân. Yn yr un modd, pan greodd cyfyngiadau teithio Covid brinder bwyd a chwyddiant, a hwythau wedi buddsoddi mewn tyfu bwyd, cafodd plant a theuluoedd rhaglenni AiF eu gwarchod rhag eithafion gwaethaf dffyg maeth a chaledi.

Diolch i grantiau amserol gan yr Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac eraill

gall Akany Avoko Faravohitra bellach fanteisio ar gyf-leusterau WASH a thoiledau bio-nwy newydd sy'n helpu cadw 100 o enethod agored i niwed yn iach, ac yn gwella hunan-gynaliadwyedd trwy

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi cip eang ar waith AiF yn 2019-20. Ewch i'n gwefan www.moneyformadagascar.org a'n cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf o Fadagascar ac am ddigwyddiadau codi arian a

Gwarchod a galluogi plant agored i niwed

Mae'r rhaglen hon yn trawsffurfio bywydau plant agored i niwed yn y brifddinas a'r cyffiniau. Heb rieni, yn amddifad, wedi'u cam-drin, yn sâl a digartref, caiff plant loches, bwyd, gofal iechyd, addysg, glanweithdra, dŵr, gofal cariadus a chymorth hirdymor i'w helpu i oresgyn achosion

Eleni, cefnogodd AiF 10 o brosiectau plant: canolfan breswyl gymysg Akany Avoko Ambohidratrimo (AAA), lloches breswyl Akany Bevalala i fechgyn, lloches breswyl Akany Avoko Faravohitra i enethod (AAF), clwb allgyrsiol Akany Hasina, Cynllun Rhwyd Diogelwch Ankizy Gasy, canolfan breswyl cefnogaeth feddygol Gilpin i gyn-blant stryd, Canolfan Ddydd ac Ysgol Fihavanana i blant stryd ac Adain Ieuenctid Carchar Toamasina.

Trwy ein partneriaeth newydd gydag eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, rydym wedi dechrau cefnogi canolfan blant Topaza ac ehangu i faes pediatreg wrth brynu offer a gwasanaethau uwchsain ar gyfer Fferyllfa SAF-FJKM Analakely Dispensary.

Roedd yn her frawychus eleni i gadw ein plant agored i niwed yn ddiogel trwy ddinistr y pandemig Covid. Llwyddodd gweithdrefnau staffio caeth i gadw Covid o'n canolfannau preswyl i blant. Yn y canolfannau, helpodd ychwanegiadau maeth a gwell hylendid i gadw plant yn iach, tra bu tiwtora ychwanegol a gweithgareddau cymdeithasol yn cefnogi datblygiad a chynnal ysbryd plant yn ystod misoedd y clo.

Yn y cyfamser, rhannwyd dognau bwyd, sebon, mygydau a grantiau argyfwng i gefnogi plant a theuluoedd sy'n defnyddio ein canolfannau dibreswyl.

Gwarchodwyd plant yn ein canolfannau rhag gwaetha'r pandemig trwy fuddsoddi cynharach mewn isadeiledd WASH, gerddi cegin a sgiliau ymarferol, megis gwnïo, a ddefnyddiwyd i greu miloedd o fygydau golchadwy i'w defnyddio a'u gwerthu.

Cynaeafu llaeth ym mhrosiect newydd Topaza – fferm y plant



Trwy gymryd rhan yn y prosiect yma mae plant Cartref Amddifaid Topaza yn mwynhau gwell iechyd a maeth, yn dysgu sgiliau ffermio newydd ac yn cynyddu'u gwytnwch. Dyma un o bedwar prosiect sy'n ffynnu diolch i arian o apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Does gan fwy na 50% o'r Malagasiaid ddim dŵr glân ac maen nhw'n dioddef o ddiffyg maeth.

Mae AiF yn helpu mwy na 60,000 mewn 80+ cymuned i gael dŵr glân, maeth a sicrwydd bwyd.

Coedwigoedd a Bywoliaeth

Mae'r rhaglen hon ym ymestyn o orllewin sych Madagascar i'r dwyrain lle mae'r coedwigoedd glaw mewn peryg mawr. Mae addysg, hyfforddiant a chymorth ymarferol yn galluogi ffermwyr a phobl y coedwigoedd i gynnal teuluoedd a gwarchod ac adfer eu hamgylchedd bregus. Mae sylw brys bellach ar Sicrwydd Bwyd a Gwrthsefyll Newid Hinsawdd yn ogystal â chymorth ychwanegol i helpu cymunedau bregus i warchod bioamrywiaeth unigryw Madagascar. Ar hyn o bryd mae AiF yn cefnogi pedwar prosiect.

Eleni dangosodd prosiectau bywoliaeth AiF yn **Betampona & Alasora** y gall buddsoddi mewn amaeth wydn, gynaliadwy, amrywiol helpu cymunedau bregus i gael sicrwydd bwyd a gwrthsefyll yn well felltithion fel cythrwfl hinsawdd a Covid. A hwythau'n gallu bwydo'u plant yn ystod misoedd clo, llwyddodd teuluoedd hunan-gynhaliol i osgoi'r diffyg maeth difrifol a effeithodd ar lawer. Bu ymgych Covid yn Alasora'n rhannu mygydau, sebon, gwrth-heintwyr, moddion a chyngor i helpu cadw teuluoedd yn gryf rhag yr haint.

Yn Andasibe-Mantadia gydag Association Mitsinjo

Gan ragweld y byddai colli twristiaeth ym Madagascar yn achosi caledi mawr a heriau cadwraeth mewn canolfannau eco-dwristiaeth megis Andasibe-Mantadia, gwnaeth AiF grantiau Cadwraeth-Covid i Association Mitsinjo i frwydro tlodi a hybu cadwraeth trwy greu swyddi plannu coed a chynnal a chadw. Cyfyngwyd ar ledaeniad tlodi a Covid trwy ddarllediadau iechyd cyhoeddus a rhoddion o fygydau, sebon a reis. Plannwyd 20 hectar o goedwig yn ogystal â chynnal ein prosiect bywoliaeth ffermio.

Ym **Melaky** cynghreiriodd SAF gyda cho-op menywod SAF ac awdur-dodau lleol i gynnal ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus sylweddol mewn 3 tref farchnad. Atgyfnerthwyd gwaith codi ymwybyddiaeth ar deledu, radio a stondinau marchnad trwy rannu gorsafoedd golchi-dwylo, sebon, gel a mygydau.

Dim ond 10% o goedwigoedd Madagascar sydd ar ôl. Mae 33 rhywogaeth o lemur mewn 'peryg argyfyngus'.

250,000 o goed wedi'u plannu hyd yma gan brosiectau cymunedol AiF. 30,000+ o goed yn cael eu plannu a'u cynnal bob blwyddyn. Warchodfa Coedwig Law yn cael eu gwarchod trwy brosiectau cadwraeth gymunedol ac amaeth gynaliadwy.

Addysg i Fyw (E4L)

Mae AiF yn gweithio mewn partneriaeth gyda Sefydliad Adsum i ddwyn gobaith a ffyniant i blant gwledig Madagascar. Bellach mae gan blant mewn ysgolion anghysbell gyfle i lwyddo diolch i'n rhaglen Addysg i Fyw sy'n darparu: stafelloedd dosbarth newydd, dŵr, toiledau, llyfrau, hyfforddiant athrawon, addysg amgylcheddol, gerddi cegin, ffreuturau ysgol ac ynni solar. Cymerodd 53 ysgol mewn 4 rhanbarth ran yn y rhaglen yn 2019-20. Ymunodd 15 ysgol â'r prosiect eleni ac mae 10 arall yn paratoi i ymuno'r flwyddyn nesaf. Rydym yn chwilio am bartneriaethau i estyn y rhaglen ymhellach.

Cefnogi ysgolion a myfyrwyr

Pan gaeodd ysgolion oherwydd cyfyngiadau Covid, trodd ein timau E4L ar unwaith at helpu cymunedau ysgol. Rhannwyd grantiau, bwyd, sebon, mygydau a gwybodaeth iechyd cyhoeddus i fyfyrwyr ein hysgolion a'u teuluoedd, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed a ddibynnai ar ffreuturau ysgol i fwydo'u plant. Wedi diddymu'r clo, cafodd ysgolion E4L gefnogaeth i ailagor mewn ffordd ddiogel gydag offer ychwanegol a hyfforddiant iechyd a hylendid. Rhoddwyd cymorth ariannol i athrawon a gafodd eu gorffwys yn ystod y pandemig i helpu bwydo'u teuluoedd. Yn gyfnewid, anogwyd athrawon i helpu myfyrwyr i barhau gyda'u hastudiaethau yn ystod y clo trwy fynediad i lyfrgelloedd ysgol E$L a gwaith cartref. Ewn rhai achosion, llwyddwyd i gael myfyrwyr hŷn i gefnogi'r broses o addysgu myfyrwyr iau.

Brwydro Covid gyda gorsafoedd golchi-dwylo yn ysgolion E4L

Bu partneriaid E4L AiF yn ymweld ag ysgolion i ddysgu rhieni, athrawon a myfyrwyr am Covid a sut i'w wrthsefyll. Cafodd ysgolion sebon, gorsafoedd golchi-dwylo a diheintydd. Er mwyn eu helpu i gael incwm tyngedfenol yn ystod y pandemig, menywod ifanc o AAF a graddedigion o gartref plant AAA fu'n gwnïo'r mygydau golchadwy a rannwyd i fyfyrwyr E4L.

Dim ond 1 o bob 3 phlentyn ym Madagascar sy'n cwblhau addysg gynradd.

Mae 15,000 o blant o 79 ysgol yn manteisio ar well adnoddau addysg a dysgu trwy raglen Addysg i Fyw AiF.

Adroddiad Cyllid 2019-20





Er gwaetha'r pandemig, cynyddodd grantiau i Fadagascar gan 28%, o £268,000 yn 2018-19 i £344,240 yn 2019-20.

Cynyddodd incwm gan 29% i £469,176 – hyn yn bennaf oherwydd partneriaeth newydd gydag Undeb Yr Annibynwyr Cymraeg (UWI) trwy gyfraniad o £157,000 i gyllido 4 prosiect newydd dros 3 blynedd.

Codwyd £42,000 at ein hapêl Covid-19 trwy roddion gan gefnogwyr unigol ac Ymddiriedolaethau, gan ein galluogi i wneud grantiau brys i helpu partneriaid a buddolwyr oroesi'r pandemig.

Gostyngodd Cronfeydd Anghyfyngedig gan £50,145, o ganlyniad i effaith Covid ar godi arian a phenderfyniad i ryddhau arian wrth gefn i gynnal ein rhaglenni a'n partneriaid trwy'r trafferthion Covid.

Cyfrifwn ein cronfeydd wrth gefn trwy ystyried ein hasedau cyfredol net anghyfyngedig a buddsoddiadau. Ar 30 Medi 2020, roedd hyn yn £266K, gyda £202K o hynny mewn buddsoddiadau moesol.

Irenee Rajaona-Horne, Cyfarwyddwr **Eifion Griffiths, Honorary Treasurer**

Gallwch weld cyfrifon llawn AiF a rhestr o Ymddiriedolwyr a Noddwyr AiF ar wefannau AiF a Chomisiwn Elusennau'r DU. Gallwch ofyn am gopïau papur o swyddfa AiF. .